



Blwyddyn y Llygoden Fawr

Pecyn Addysg ar gyfer Ysgolion Cynradd

Adnoddau i helpu eich ysgol i ddathlu
Blwyddyn Newydd Tsieineaidd 2020

鼠
年



Cyflwyniad

Yn ôl y Calendr Lloerol Tsieineaidd, mae Blwyddyn y Llygoden Fawr yn dechrau ar 25 Ionawr 2020. Oeddech chi'n gwybod mai'r gair a'r nod Tsieinëeg am lygoden fawr yw Shǔ ac 鼠. Mae'r un nod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer 'llygoden' ac mae hefyd yn un o'r ddau nod sy'n cael eu defnyddio ar gyfer llygoden cyfrifiadur, 鼠标 shǔ biāo 'pwyntydd llygoden'.

Pecyn addysg ar gyfer ysgolion cynradd yw hwn. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau i helpu athrawon a disgyblion ddysgu mwy am yr ŵyl wanwyn bwysig yma a darganfod mwy am iaith a diwylliant Tsieina.

Gall eich disgyblion ddarllen stori draddodiadol am bâr o lygod mawr sy'n rhieni uchelgeisiol sy'n ceisio ffeindio gŵr da i'w merch. Mae'r stori'n bwrw golau ar agwedd pobl a diwylliant Tsieina at lygod mawr. Hefyd, bydd cyfle i chi roi cynnig ar bôc *Tangram*, dysgu am nifer o wyliau Tsieineaidd a sut i ysgrifennu cyfarchion mewn Tsieinëeg. Yn ogystal, mae'r pecyn yn cynnwys llythyron gan blant o wahanol rannau o Tsieina sy'n sôn am eu hoff wyliau a sut maen nhw'n eu dathlu. Mae cyfle i fod yn greadigol hefyd drwy greu pypedau bys neu drïo rysâit am ddanteithion traddodiadol - twmplenni reis wedi'u stemio.


Gŵyl y Gwanwyn - Chūn Jié (春节)

Gŵyl y Gwanwyn – Gŵyl Chūn Jié (春节) Yn niwylliant Tsieina, dyma ŵyl bwysicaf y flwyddyn. Mae dathliadau'r ŵyl yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y mis lloerol cyntaf. Yn ystod yr ŵyl, mae teuluoedd yn dod at ei gilydd ac mae pobl yn anrhydeddu eu cyndeidiau. Cynhelir perfformiadau cyhoeddus o ddawns y llew ac mae pobl yn rhoi arian mewn amleni coch a'u gosod yng ngheg y llew – am lwc dda. Yn draddodiadol, mae neiniau a theidiau yn rhoi arian mewn amleni coch yn anrheg i'w hwyrion a'u hwyresau. Yr enw ar yr arfer yma yw: 压岁钱 - yā suì qián. Erbyn heddiw rydych lawn mor debygol o weld cymeriadau cartŵn ar yr amleni ag yr ydych o weld symbolau traddodiadol.






賀新年



Cynnwys

- Cyflwyniad
 - Stori Priodas y Llygoden Fawr
 - Creu pypedau bysedd a phropiau i ailadrodd stori Priodas y Llygoden Fawr
 - Dysgu am bosau a thangramau Tsieineaidd
 - Dathliadau Tsieineaidd
 - Iaith a Chaligraffi Tsieineaidd – gwyliau a dathliadau
 - Llythyron gan blant o Tsieina – yn sôn am eu hoff wyliau
 - Rysâit ar gyfer twmpenni Tsieineaidd traddodiadol
 - Rhagor o wybodaeth
- | | |
|-----|-----------|
| tud | 3 |
| tud | 6 |
| tud | 8 |
| tud | 12 |
| tud | 14 |
| tud | 15 |
| tud | 22 |
| tud | 24 |



Gwybodaeth ffeithiol i'w rannu gyda disgyblion

Blwyddyn y Llygoden Fawr yw blwyddyn gyntaf y Sidydd Tsieineaidd. Pam? Achos y llygoden fawr sy'n ennill Ras Fawr yr Anifeiliaid drwy fod yn gyfrwys a chwim ei meddwl. Cafodd Ras Fawr yr Anifeiliaid ei threfnu gan yr Ymerawdwr Jade. Mewn un rhan o stori Ras Fawr yr Anifeiliaid mae'r llygoden fawr yn perswadio'r bustach i'w chario ar draws yr afon. Wedi iddyn nhw gyrraedd yr ochr draw yn ddiogel, mae'r llygoden fawr yn sgrialu tua'r llinell derfyn o flaen y bustach. Daw'r bustach yn ail yn y ras, ac yna daw'r teigr, y gwningen, y ddraig, y neidr, y ceffyl, yr afr, y mwnci, y ceiliog, y ci ac yn olaf, y mochyn. Mae gan lawer o wahanol ddiwylliannau straeon am sut mae anifeiliaid bach yn llwyddo i gael y gorau ar anifeiliaid mwy o faint. Yn y Deyrnas Unedig mae gyda ni chwedl Aesop am 'Y Sgwarnog a'r Crwban' a stori 'Y Gryffalo' gan Julia Donaldson. Yn Indonesia mae plant yn cael clywed stori'r Carw Llygoden a'r Crocodeil. Gallwch annog eich disgyblion i ysgrifennu eu straeon eu hunain lle mae'r arwr neu'r arwres yn anifail bach sy'n trechu pob math o rwystrau wrth gael y gorau ar anifeiliaid mwy o faint.

Yn niwylliant Tsieina, mae'r llygoden fawr yn cael ei hystyried yn anifail positif iawn. Mae'n cael ei gweld fel anifail deallus ac mae pobl sy'n cael eu geni ym Mlwyddyn y Llygoden Fawr yn cael eu hystyried yn chwim eu meddwl, yn ddyfeisgar ac amryddawn. Yn ogystal, mae yna draddodiad hynafol yn Tsieina lle mae pobl yn garedig wrth lygod a llygod mawr ar un noson benodol o'r flwyddyn. Mewn sawl rhan o Tsieina, mae hyn yn digwydd ar drydedd noson y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Ar y noson honno, mae rhai pobl yn gadael gronynnau o reis neu ddarnau bach o fwydydd eraill allan ar gyfer y llygod a'r llygod mawr. Mae amryw o artistiaid wedi creu darluniau neu baentiadau sy'n dangos gorymdaith briodasol ar y noson yma neu nifer o lygod a llygod mawr yn mwynhau digwyddiadau'r noson. Mae'r rhain yn cynnwys lluniau o lygod mawr yn chwarae offerynnau cerdd a'r briodferch yn cael ei chario ar ysgwyddau'r llygod mawr eraill mewn *palanquin*, sef math o gadair grand ar gyfer cario pobl sy'n debyg i gadair *sedan* gyda tho uwch ei phen.

Amcanion Dysgu: Ennyn diddordeb disgyblion gyda stori draddodiadol o Tsieina a chyflwyno gweithgareddau i gyfoethogi eu dealltwriaeth a'u hamgyffrediad o'r testun.

Cysylltiadau Cwricwlwm: Cymraeg, Drama, Celf a Dylunio.

Sgiliau Craidd a Throsglwyddadwy: Creadigrwydd a defnyddio'r dychymyg, cydweithio a chyfathrebu.

Paratodau ac Adnoddau: Bydd angen: Copi o'r stori, darnau mawr o bapur, pennau, cerdyn a defnyddiau celf.

Stori Priodas y Llygoden Fawr

Gallwch rannu'r stori Tsieineaidd draddodiadol yma gyda'ch disgyblion. Mae'n adrodd hanes dau riant sy'n llygod mawr uchelgeisiol a'u hymdrechion i ffeindio gŵr addas i'w merch. Pan fyddwch yn adrodd y stori, stopiwch cyn *Diweddglo 1* i annog y dosbarth i geisio dyfalu beth sy'n digwydd nesa a beth fydd diweddglo'r stori. Ar ôl eu hannog i rannu eu syniadau, darllenwch y ddau ddiweddglo gwahanol isod i'r stori. Trafodwch pa un maen nhw'n credu yw'r diweddglo gorau a pham maen nhw'n credu hynny.

Amser maith, maith yn ôl, roedd teulu o lygod mawr: Mam a Thad a'u hunig ferch. Roedd Mr a Mrs Llygoden Fawr yn falch iawn o'i merch. Roedden nhw hefyd yn gwybod eu bod nhw'n deulu tlawd a di-nod ac roedden nhw eisiau bywyd gwell ar gyfer eu hunig blentyn. Fe fuon nhw'n siarad am hyn am lawer dydd a llawer nos, ac o'r diwedd fe wnaethon nhw benderfynu mai'r ateb gorau posib i'r sefyllfa oedd ffeindio'r gŵr gorau posib i briodi eu merch.



Stori Priodas y Llygoden Fawr yn parhau..

Am ddyddiau lawer, fe fuodd y fam a'r tad yn trafod yn eiddgar pwy fyddai'r gŵr gorau ar gyfer eu merch. Fe wnaethon nhw ystyried llawer iawn o bosibiliadau gwahanol. O'r diwedd fe benderfynon nhw mai'r gŵr gorau i'w merch oedd yr un mwyaf pwerus yn y wlad – gŵr pwerus iawn a fyddai'n gwneud yn siwr bod eu merch werthfawr yn cael popeth yr oedd hi eisiau. Ar ôl gwneud y penderfyniad mawr yma, fe sylweddolon nhw mai dim ond un dewis oedd ganddyn nhw ar gyfer gŵr i'w merch - Yr Haul – achos, beth yn y byd i gyd oedd yn fwy pwerus na'r Haul?

Gwisgodd Mr a Mrs Llygoden Fawr eu dillad gorau, ac yna fe aethon nhw allan i siarad â'r Haul. Roedd yr Haul yn tywynnu'n ddisglair yn yr awyr, gydag ambell gwmwl yn hwylio heibio o dro i dro. Roedden nhw newydd orffen canmol yr Haul am fod mor ddisglair ac am ei belydrau pwerus pan hwyliodd cwmwl ar draws llwybr yr Haul gan rwystro ei belydrau a chuddio ei olau. Yn sydyn, wrth i gysgod y cwmwl ddisgyn ar Mr a Mrs Llygoden Fawr fe beidiodd y gwres ac roedden nhw'n teimlo ychydig bach yn oer. Fe edrychodd Mr a Mrs Llygoden Fawr ar ei gilydd mewn ofn a syndod.

“Beth yw hyn? Beth yw hyn?” gofynnodd Mr Llygoden Fawr.

“Mae'r cwmwl yna wedi cuddio'r haul!” atebodd Mrs Llygoden Fawr.


“Mae'r cwmwl yna'n fwy pwerus na'r Haul! Rhaid i'n merch ni briodi'r cwmwl yna!” meddai Mr Llygoden Fawr.

Roedden nhw ar fin gofyn i'r cwmwl briodi eu merch, pan ddaeth chwa o wynt a chwythu'r cwmwl i ffwrdd.

“Beth yw hyn? Beth yw hyn?” gofynnodd Mr Llygoden Fawr.

“Mae'r gwynt wedi chwythu'r cwmwl i ffwrdd!” atebodd Mrs Llygoden Fawr.

“Mae'r gwynt yn fwy pwerus na'r cwmwl. Rhaid i'n merch ni briodi'r gwynt!” meddai Mr Llygoden Fawr.



Wrth iddyn nhw redeg ar ôl y gwynt i ofyn iddo briodi eu merch, fe wnaethon nhw redeg tu ôl i wal. Yn sydyn, doedden nhw ddim yn gallu teimlo'r gwynt o gwbl.

“Beth yw hyn? Beth yw hyn?”

gofynnodd Mr Llygoden Fawr.

“Mae'r wal wedi rhwystro'r gwynt!”

atebodd Mrs Llygoden

Fawr. Mae'r wal yn fwy

pwerus na'r gwynt. Rhaid i'n

merch ni briodi'r wal!” meddai

Mr Llygoden Fawr.

Roedden nhw ar fin gofyn i'r wal

briodi eu merch pan edrychon nhw

i lawr wrth waelod y wal. Roedd

llygoden fawr wedi bod yn twrio

yno, ac wedi creu twnel trwy

waelod y wal.

“Beth yw hyn? Beth yw hyn?” gofynnodd

Mr Llygoden Fawr.

“Mae'r llygoden fawr yna wedi twrio twnel

drwy'r wal!” atebodd Mrs Llygoden Fawr.

“Mae'r llygoden fawr yna'n fwy pwerus na'r

wal. Rhaid i'n merch ni briodi'r llygoden fawr

yna!” meddai Mr Llygoden Fawr.

Diwedd glo 1

Yn sydyn, allan o'r twll wrth waelod y wal fe ymddangosodd llygoden fawr ifanc a golygus. Yn syth, gofynnodd Mr a Mrs Llygoden Fawr iddo briodi eu merch. Roedd y llygoden fawr ifanc a golygus wrth ei fodd achos roedd Miss Llygoden Fawr yn ddeallus a hardd ac roedd e'n sicr y byddai hi'n wraig ardderchog. Fe gytunodd pawb ar y briodas ac fe roddodd Mr a Mrs Llygoden Fawr wahoddiad i'w holl ffrindiau yn ogystal â'r Haul, y cwmwl, y gwynt a'r wal i ymuno yn nathliadau'r briodas. Cafodd pawb amser bendigedig ac fe gytunodd pawb fod popeth wedi gweithio allan yn y ffordd orau bosib.

Diwedd glo 2

Roedd Mr a Mrs Llygoden Fawr ar fin gofyn i'r llygoden fawr ifanc a golygus briodi eu merch, pan ymddangosodd cath. Llamodd y gath ar ben y llygoden fawr ifanc a golygus a'i fwyta.

“Beth yw hyn? Beth yw hyn?” gofynnodd

Mr Llygoden Fawr.

“Mae'r gath wedi bwyta'r llygoden fawr!”


atebodd Mrs Llygoden Fawr

“Mae'r gath yn fwy pwerus na'r llygoden fawr.

Rhaid i'n merch ni briodi'r gath yna!” meddai

Mr Llygoden Fawr.

Ond cyn iddyn nhw gael cyfle i ofyn i'r gath briodi eu merch, fe drodd y gath arnyn nhw hefyd. Fe redodd y gath ar ôl Mr a Mrs Llygoden Fawr a'u merch, rownd a rownd y wal. Fe lamodd y gath gan ddal pob un ohonyn nhw a'u bwyta nhw i gyd i ginio!



Taflen Weithgaredd Ailadrodd y Stori

Gweithgaredd 1 Trafod a chnoi cil

Rhannwch eich dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch iddyn nhw ddewis geiriau i ddisgrifio cymeriadau Mr a Mrs Llygoden Fawr a'u merch a pha gwestiynau fydden nhw'n eu gofyn i bob cymeriad. Gofynnwch i aelodau'r dosbarth gymryd rhan mewn ymarfer 'cadair boeth' lle mae un disgybl yn cymryd rhan un o'r cymeriadau ac yn eistedd yn y 'gadair boeth'. Yna, 'mewn cymeriad' rhaid iddynt ateb cwestiynau gan eu cyd-ddisgyblion. Ydy'r disgyblion yn credu bod neges gan y stori draddodiadol yma? Os felly, sut fydden nhw'n cyfleu'r neges yna mewn un frawddeg?


Gofynnwch i bob grŵp greu 'map stori' sy'n cofnodi holl ddigwyddiadau stori Priodas y Llygoden Fawr ar ddarn mawr o bapur. Gall hwn weithio fel hwb gweledol i'w helpu wrth ailadrodd y stori ar lafar a heb nodiadau. Yna gofynnwch i bob grŵp ymarfer ailadrodd y stori gyda'i gilydd gyda diweddglo o'u dewis. Os yw'r disgyblion yn dymuno, gallant ychwanegu elfennau disgrifiadol neu ddeialog ychwanegol i roi eu stamp eu hunain ar y stori.

Gweithgaredd


Creu pypedau bys a phropiau i ailadrodd stori Priodas y Llygoden Fawr wrth gynulleidfa.

Rhannwch y cyfarwyddiadau yma gyda'ch disgyblion fel y gallant greu pypedau bys o lygod mawr o wahanol feintiau i adrodd stori teulu'r llygod mawr.

Gofynnwch i bob grŵp yn eu tro ddefnyddio eu pypedau a'u propiau i adrodd eu fersiwn nhw o stori Priodas y Llygoden Fawr. Annogwch y disgyblion i ddefnyddio gwahanol leisiau ac ystumiau i greu perfformiad cofiadwy. Gall y disgyblion berfformio'r straeon ar gyfer dosbarthiadau eraill fel rhan o wasanaeth ysgol yn nodi'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.



1. Tynnwch lun hanner cylch ar ddarn o garden lwyd ac yna torrwch hwnnw allan.




4. Gludiwch neu defnyddiwch dâp glut i lynnu darn o lanhaur pibell wrth ben agored y côn i greu cynffon.






2. Rholiwch yr hanner cylch o gwmpas eich bys i greu siâp côn tenau. Defnyddiwch ddarnau o dap glut i ddal yr ymylon at ei gilydd.



3. Torrwch ddefnyddiau celf fel glanhawyr pibell a phom-pomiau a'u gludo i bigyn y côn i greu trwyn a wisgers.



5. Ychwanegwch lygaid gwgli, ac yna torrwrch siâp dwy glust fach o'r garden (nb os nad oes gennych y defnyddiau crefft yma wrth law, gallwch ddefnyddio pennau ffelt i greu nodweddion y tair llygoden fawr).



6. Defnyddiwch weddill y cerdyn i greu haul, cwmwl, wal a chath – o wasanaeth ysgol yn nodi'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Gludwch rhain wrth ffyn bach tenau neu brennau lolipop.

Gweithgareddau gydag Ysgol Bartner

Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner, fe allech:

Drafod sut mae llygod mawr yn cael eu portreadu fel arfer yn eich gwlad chi. Ffilmio pob grŵp yn adrodd eu fersiwn nhw o'r stori a rhannu'r ffilmau gyda'ch ysgol bartner.

Os yw'r dechnoleg ac apiau animeiddio stop-symud ar gael, fe allech greu fersiynau wedi'u hanimeiddio o'r straeon gyda'ch pypedau bysedd a'ch propiau.

Posau Tangram

Gwybodaeth ffeithiol i'w rannu gyda'ch disgyblion

Yn stori Ras yr Anifeiliaid, mae'r llygoden fawr yn trechu gweddill yr anifeiliaid yn y ras gyda'i feddwl chwim. Yn Tsieina mae posau a gemau lle mae angen datrys problem yn boblogaidd iawn. Mae'r Tangram yn un o bosau mwyaf enwog Tsieina. Mae'r pos wedi'i seilio ar sgwâr sydd wedi ei rannu'n saith o siapiau geometregol – 5 o drionglau (dau driongl bach, un canolig a dau driongl mawr), sgwâr a pharalelogram). Gallwch ail-drefnu'r rhain i greu siapiau eraill neu luniau. Yr enw Tsieinëeg ar y pos yw 七巧板 - qī qiǎo bǎn – sy'n golygu “saith darn dyfeisgar”.

Cafodd y Tangram ei ddyfeisio yn Tsieina amser maith, maith yn ôl – mwy na thebyg yn ystod Brenhinllin Song (970-1279 Oes Gyffredin), ond ni chyrrhaeddodd y Gorllewin tan tua 1800. Yn ogystal â chario nwyddau fel sidan a phorslen i Ewrop ac America fe fyddai llongau o'r dwyrain hefyd yn cario'r setiau posau yma - yn anrhegion i deuluoedd a ffrindiau. Roedd gwahanol ddefnyddiau'n cael eu defnyddio i greu tangramau gan gynnwys pren, ifori a metal ac yn aml roeddent yn cael eu hallforio mewn bocsys lacr du.



Gweithgaredd 3

Gweithgaredd: Dysgu am draddodiad posau yn Tsieina gan gynnwys y Tangram.

Cysylltiadau Cwricwlwm: Mathemateg, Ieithoedd Modern, Dylunio a Thechnoleg.

Sgiliau Craidd a Throsglwyddadwy: Datrys problemau a meddwl beirniadol, creadigrwydd a defnyddio'r dychymyg, llythrennedd digidol.

Paratodau ac Adnoddau: Bydd angen: Copïau o'r dudalen weithgaredd, siswrn, cerdyn ac amleni i gadw eich tangramau ynddynt.



Ceffyl – 马 Mǎ



Ci – 狗 Gǒu

Printiwch y tangram o'r dudalen weithgaredd ar ddarn o gerdyn. Gofynnwch i'ch disgyblion dorri'r saith siâp unigol allan ac yna'u hail-drefnu'n ôl i siâp sgwâr mawr. Yna rhowch gyfle iddyn nhw arbrofi gyda'r holl siapiau i geisio creu delweddau/siapiau o anifeiliaid gan gynnwys rhai o ddeuddeg anifail y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Annogwch y disgyblion i dynnu lluniau neu ffotograffau o'u delweddau o anifeiliaid. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu enwau Cymraeg a Tsieinëeg yr anifeiliaid wrth ochr neu o dan eu lluniau. Faint o wahanol anifeiliaid gall y disgyblion eu creu? Hefyd gallwch eu herio i greu delweddau eraill gyda'r darnau - person neu dŷ – o fewn amser penodol.

I atgoffa'ch disgyblion o enwau a nodau Tsieinëeg y gwahanol anifeiliaid, gallwch gyfeirio'n ôl at becynnau addysgol Blwyddyn y Mwnci a Blwyddyn y Mochyn.

https://www.britishcouncil.org/sites/default/files/year_of_the_pig_education_pack_-_welsh_version.pdf

Tudalen Weithgaredd **Tangram**

Printiwch y tangram ar ddarn o gerdyn.

Torrwch y 7 siâp geometregol allan.


Trefnwch y 7 siâp i geisio creu siapiau gwahanol anifeiliaid.

Tynnwch lun neu ffotograff o bob anifail cyn ail-drefnu'r darnau yn ôl i siâp sgwâr mawr.

Gweithgareddau gydag ysgol bartner

Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner, fe allech:

- Rannu eich hoff bosau a gemau lle mae angen datrys problem.
- Tynnu ffotograffau a rhannu lluniau eich tangramau o anifeiliaid.
- Dysgu am gemau pos Tsieineaidd traddodiadol eraill a rhoi tro arnynt – fel *Chinese checkers* a *mah-jong*.



Taflen wybodaeth Gwyliau Tsieineaidd Traddodiadol

Gan fod gwyliau Tsieineaidd traddodiadol yn cael eu dathlu yn ôl y Calendr Lloerol, gall dyddiad eu dathlu (o ran y calendr gorllewinol modern) amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Gŵyl y Gwanwyn 春节 (Chūn Jié) - sydd hefyd yn cael ei galw'n Wyl y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Dyma wyl bwysicaf y flwyddyn yn Tsieina. Mae'r dathliadau'n dechrau ar ddiwrnod cyntaf mis cyntaf y calendr lloerol. Yn draddodiadol mae'r wyl yn para am 15 diwrnod, ond yn y Tsieina

fodern ceir gwyliau cyhoeddus am bedwar diwrnod ac yna dau ddiwrnod arall dros y penwythnos. Ar ddiwrnod olaf Gŵyl y Gwanwyn cynhelir Gŵyl y Llusernau lle ceir gorymdeithiau ac arddangosfeydd o lusernau anferth o bob lliw, llun a siâp. Yn ystod gwyliau cyhoeddus y Flwyddyn Newydd, mae miliynau o bobl yn teithio pellteroedd maith yn ôl i'w cartrefi teuluol i dathlu'r wyl gyda'u rhieni a pherthnasau eraill.

Gŵyl Cwch y Ddraig 端午节 (Duān Wǔ Jié) - sydd hefyd yn cael ei galw'n Wyl y Pump Dwbl gan ei bod yn cael ei chynnal ar bumed diwrnod pumed mis y calendr lloerol, rhywro ym mis Mehefin fel arfer. Mae'r wyl yn dathlu gwladgarwch gwleidydd o'r 3ydd ganrif cc o'r enw Qu Yuan. Fe roddodd Qu Yuan gyngor i reolwr Talaith Chu y dylai wrthsefyll ymgyrch Talaith rymus Qin i ehangu ac ennill tiroedd newydd. I ddechrau, fe gytunodd y rheolwr gyda Qu Yuan, ond yna newidodd ei feddwl ac fe gafodd Qu Yuan ei alltudio. Wrth weld pŵer Talaith Qin yn tyfu, fe dorodd Qu Yuan ei galon, ac fe foddodd ei hunan yn Afon Miluo gan ddweud y byddai'n well ganddo farw na gweld Tsieina'n syrthio i ddwylo Qin. Ychydig dros hanner canrif yn ddiweddarach roedd Brenin Qin wedi gorchfygu Tsieina i gyd gan ddatgan





mai ef oedd Qin Shi Huangdi (秦始皇帝), I gofio am Qu Yuan, mae pobl yn cynnal rasys cychod mewn canwod hir wedi'u haddurno fel dreigiau ar afonydd a llynnoedd ledled Tsieina, ac mewn cymunedau Tsieineaidd eraill. Yn ystod Gŵyl Cwch y Ddraig mae'n draddodiad i fwyta zòngzi (粽子), twmpfen reis ludiog wedi'i lapio mewn deilen. Mae rysait syml ar gyfer zòngzi yn rhan o'r pecyn adnoddau yma.

Gŵyl Qingming 清明节 (Qīng Míng Jié) - sydd hefyd yn cael ei galw'n Ddiwrnod Ysgubo'r Beddrodau. Caiff yr ŵyl yma ei dathlu 104 o ddiwrnodau ar ôl heuldro'r Gaeaf, sef y 4ydd neu'r 5ed o Ebrill fel arfer. Pwrpas yr ŵyl yw parchu a gofalu am gyndeidiau'r teulu, sy'n draddodiad ers miloedd o flynyddoedd yn Tsieina. Ar y diwrnod arbennig yma, mae pobl yn mynd i feddrodau hynafol eu teuluoedd i'w sgubo a'u glanhau a'u haddurno â blodau, cyn offrymu bwyd a gwin. Mae'r teuluoedd hefyd yn mwynhau picnic mawr ar y diwrnod yma. Mae'r defodau yma'n fwy o 'ddigwyddiad' yng ngefn gwlad Tsieina bellach gan fod mwy o bobl yn dal i gael eu claddu yno yn hytrach na chael eu hamlosgi fel sy'n fwy arferol yn y dinasoedd.

Gŵyl Ganol yr Hydref 中秋节 (Zhōng Qiū Jié) sydd hefyd yn cael ei galw'n Ŵyl y Lleuad. Mae'n cael ei chynnal ar bymthegfed diwrnod yr wythfed mis, pan mae lleuad lawn yn yr awyr. Yn wreiddiol roedd hon yn ŵyl i ddathlu cynhaeaf yr hydref ac mae'n dyddio'n ôl dros 3000 o flynyddoedd i gyfnod Brenhinlin Shang. Y brif chwedl sy'n gysylltiedig â Gŵyl Ganol yr Hydref yw stori'r saethydd anhygoel, Hou Yi, a'i wraig Cháng'é, a sut y daeth hi'n Dduwies y Lleuad. Fe achubodd Hou Yi holl bobl y byd gyda'i fwa saeth drwy saethu naw o'r deg haul a oedd wedi ymddangos yn yr awyr ac a oedd yn llosgi'r ddaear. Fe roddodd y Duwiau wobr iddo, sef diod arbennig iawn - Elicsir Anfarwoldeb. Gofynnodd Hou Yi i'w wraig ofalu am yr elicsir arbennig. Un diwrnod, sef pymthegfed diwrnod yr wythfed mis, fe ddaeth rhywun i'r tŷ i geisio dwyn yr elicsir. Ond yn hytrach na gadael i'r lleidr ei ddwyn, fe lyncodd

Cháng'é y cyfan cyn hedfan yr holl ffordd i ddiogelwch y Lleuad. Ond ar ôl cyrraedd y Lleuad, doedd Cháng'é ddim yn gallu dychwelyd i'r ddaear ac felly cafodd hi a Hou Yi eu gwahanu am byth. Am weddill ei oes, ar bymthegfed diwrnod yr wythfed mis, byddai Hou Yi yn cyflwyno pethau arbennig yn offrymau i Cháng'é – ei hoff ffrwythau a chacennau. Cyn hir, fe ddechreuodd pobl eraill ymuno ag ef, i anrhydeddu'r ddau ohonyn nhw. Yn ôl y chwedl, gallwch weld Cháng'é ar y Lleuad o hyd - yng ngwmni ei chwningen anwes. Mae hi'n treulio'i hamser yn troi'r elicsir yn dabledi bach.

Fel rhan o ddatliadau Gŵyl Ganol yr Hydref mae pobl yn cynnal partion i wylio'r lleuad lawn – y parti mwyaf enwog yw'r un sy'n cael ei gynnal ar Lyn y Gorllewin yn Hangzhou. Yn ystod yr ŵyl, mae'n draddodiad i fwyta cacennau lleuad – cacennau crwst crwn, wedi'u stwffio gydag amrywiaeth o lenwadau melys neu sawrus, gydag addurniadau cywrair ar eu topiau. Mae'n draddodiad hefyd i ryddhau llusernau i hedfan i fyny i'r lleuad.



节庆 和 庆典 (jiéqìng hé qìngdiǎn) Gwyliau a Dathliadau



Gweithgaredd 4

Gwrandewch ar y ffeiliau sain yma i ymarfer ynganu enwau gwyliau Tsieineaidd a chyfarchion Tsieinëeg.

春节 chūnjié
Gŵyl y Gwanwyn

新年 xīnnián
Blwyddyn Newydd

清明节 qīng míng jié
Gŵyl Qingming/
Diwrnod Ysgubo Beddrodau

端午节 duān wǔ jié
Gŵyl Cwch y Ddraig

中秋节 zhōng qiū jié
Gŵyl Ganol yr Hydref/
Gŵyl y Lleuad

圣诞节 shèng dàn jié
Nadolig

复活节 fù huó jié
Pasg

生日 shēng rì
Penblwydd

祝你快乐 zhù nǐ kuài lè
(Dyma ddymuno)...Hapus (i chi)

e.g. **祝你新年快乐** zhù nǐ xīnnián kuàilè
(Dyma ddymuno) Blwyddyn Newydd Hapus (i chi)

聚会 jù huì
parti

生日聚会 shēng rì jù huì
parti penblwydd

礼物 lǐ wù
anrheg/rhodd



祝你

Llythyron gan blant o Tsieina

Cafodd y llythyron yma eu hysgrifennu gan blant ysgol o wahanol rannau o Tsieina. Yn y llythyron mae'r plant yn disgrifio eu hoff wyliau a sut maen nhw'n dathlu gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Gweithgaredd 5

Rhannwch eich dosbarth yn grwpiau bach ac yna rhowch un o'r llythyron i bob grŵp ynghyd â chopiau o'r taflenni gwybodaeth am wyliau Tsieineaidd. Gofynnwch i bob grŵp wneud ychydig o nodiadau am ŵyl benodol ar ddarn mawr o bapur. Yna, gofynnwch i bob grŵp yn eu tro rannu tri phwynt pwysig am yr ŵyl gyda gweddill y dosbarth. Fe allai'r disgyblion greu sleidiau neu bosteri i rannu rhai o'r ffeithiau maen nhw wedi eu darganfod.

Gweithgaredd 6

Ar ôl i bob grŵp rannu eu gwybodaeth gyda'r dosbarth, gofynnwch i bob disgybl ddewis un ŵyl a chreu ac addurno carden arbennig ar gyfer yr ŵyl yna. Wedi iddyn nhw orffen creu'r cardiau, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r cyfarchiad priodol yn (neu ar) y garden gan ddefnyddio'r nodau Tsieinëeg o'r gweithgareddau iaith. Er enghraifft, os yw disgybl yn dewis Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, gall ysgrifennu'r canlynol ar (neu yn) y garden:

祝你新年快乐 zhù nǐ xīnnián kuàilè
(Dyma ddymuno) Blwyddyn Newydd Hapus (i chi)

Gweithgaredd 7

Gofynnwch i'ch disgyblion ysgrifennu llythyron at ddisgyblion yn Tsieina gan ddisgrifio eu hoff wyliau a disgrifio beth maen nhw'n gwneud gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau wrth dathlu'r gwyliau yna. Efallai gall y disgyblion ddefnyddio emojis fel mae Wendy wedi gwneud yn ei llythyr hi!

Gweithgareddau gydag ysgol bartner:

Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner, fe allech:
Drafod eich hoff wyliau a dathliadau a chyfnwidd cardiau ar gyfer gwahanol wyliau gyda negeseuon mewn Tsieinëeg arnynt/ ynddynt.

新年快乐

Annwyl Ffrindiau,



Fy enw i ydy Wendy Fang a dw i'n naw mlwydd oed. Ces i fy ngeni yn Beijing ac fe symudais 🚗 i Shanghai gyda fy rhieni 🧑🧑 pan oeddwn i'n 2 flwydd oed. Fy hoff wyl yw'r Flwyddyn Newydd Tsieinaidd 🎆. Dyma'r wyl rwy'n caru ❤️ fwyaf achos rydyn ni'n cael llawer o hwyl 😊 yn yr ysgol 🏫 a gartref 🏠. Dyma'r unig ddiwrnod ☀️ rwy'n cael chwarae a gwyllo'r teledu 📺 drwy'r nos 🌙. Weithiau yn ystod y Flwyddyn Newydd Tsieinaidd rydyn ni'n cael tanio tân gwyllt 🌟. Dim ond unwaith o'r blaen dw i wedi cael eu tanio nhw ac roeddwn i'n hoffi hynny.

Yn yr ysgol does dim ❌ gwersi ac rydyn ni'n cael chwarae drwy'r dydd ☀️. Mae'r athrawon a'r plant i gyd yn gwisgo dillad Tsieinaidd traddodiadol hyfryd. Eleni fe wnaethom ni chwarae gemau fel dartio, taflu moch bach 🐷, cicio'r wenol a lasw. Rwy'n hoffi gêm y lasw. Rydyn ni wedi perfformio llawer o sioeau yn y gwasanaeth lle rydyn ni wedi canu 🎤, dawnsio 🕺, gwneud kungfu, gwneud dawns y ddraig, opera Beijing, drama... Fe wnes i berfformio'r gân "Darllen Cerddi Brenhinlin Tang" gyda disgyblion eraill 🧑🧑. Mae'n gerdd hir iawn gyda llawer o rannau ac roedd rhaid i fi wneud llawer o ymarfer. Roedd y sioe yn llwyddiant! Roeddwn i'n hapus iawn.

Yn Shanghai, mae yna draddodiad arbennig. Mynd i wyllo'r sioe lusernau 🌟 yng Ngardd Yu yw'r traddodiad arbennig. Mae pob math o lusernau 🌹, pysgod 🐟, dreigiau, moch 🐷... pob un â golau ✨ tu fewn iddynt. Yn y sgwâr yn y canol, roedd pob adeilad wedi ei addurno gyda cherfluniau. Yn y canol mae cerflun ANFERTH o anifail y flwyddyn yna. Mae'n edrych yn FENDIGEDIG yn y nos.

Os byddwch chi'n dod i Tsieina adeg dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieinaidd 🎆, mae'n RHAID i chi fynd i weld Gardd Yu. Mae'n ANHYGOEL 😱! Yn wirioneddol ANHYGOEL 😱!

Yn ddi-ffuant,

Wendy (方韵宜)

Blwyddyn 4, Ysgol Ryngwladol Unedig Shanghai (SUIS)



Annwyl Ffrindiau,

Fy enw i ydy Mingda Liu. Rydw i'n astudio yn Ysgol Elfennol Prifysgol Peking (北京大学附属小学).

50 o flynyddoedd yn ôl ar yr 20fed o Orffennaf, 1969, fe gamodd Neil Armstrong ar y lleuad - y dyn cyntaf erioed i wneud hynny. Ond yn ôl hen chwedl Tsieineaidd roedd menyw o'r enw Cháng'é wedi mynd yno filoedd o flynyddoedd cyn hynny - gyda'i chwnigen anwes! Fe wnaeth hi lyncu pilsen arbennig a roddwyd i'w gŵr gan un o'r duwiau ac yna fe hedfanodd hi i'r lleuad, gan droi'n dduwies. Y stori yma sy'n esbonio pam rydyn ni'n dathlu Gŵyl Ganol yr Hydref, sef fy hoff ŵyl i.

Rydyn ni'n dathlu'r ŵyl ar Awst 15 yn ôl y calendr lloerol. Dyna'r diwrnod mae'r lleuad ar ei fwyaf crwn a'i fwyaf disglair. Yn ôl y chwedl dyna pryd y byddai Cháng'é yn dod yn ôl i'r ddaear ac ail-ymuno gyda'i gŵr a bendithio'r bobl i gyd.

Rydyn ni'n gwneud llawer o bethau diddorol ar y diwrnod arbennig yma, gan gynnwys bwyta cacennau lleuad, anrhydeddu'r lleuad, goleuo llusernau, dyfalu a datrys posau, yfed gwîn osmanthus a llawer o bethau eraill. Bwyta cacennau lleuad yw'r peth rwy'n ei hoffi fwyaf. Mae cacennau lleuad yn gacennau melyn crwn gyda geiriau o fendith arnyn nhw a phob math o lenwadau gwahanol ynddyn nhw hefyd. I fi, y llenwad mwyaf blasus yw ffa coch wedi'u stwnshio, ond gallwch gael llenwad cnau, stwnsh rhosod a phorc hefyd.

Mae'r ŵyl yma'n dangos pa mor bwysig yw'r teulu i bobl Tsieina, ac mae hefyd yn adlewyrchu eu breuddwydion hyfryd am y lleuad. Yn olaf, fe hoffwn rannu cerdd gan Li Bai gyda chi – mae e'n un o feirdd mwyaf enwog Tsieina.

Meddyliau ar Noson Lonydd

O flaen fy ngwely mae pwll o olau;
Och, ai barrug yw hwn ar y ddaear?
Wrth edrych i fyny, rwy'n gweld y lleuad yn disgleirio;
Wrth ymgrymu, rwy'n boddi mewn hiraeth.

Yr eiddoch yn ddi-ffuant,
Mingda Liu (刘明达)




Fy hoff wyl.

Ji Siwei ydw i. Fy enw Saesneg ydy Hans. Rydw i yn Nosbarth 2 a Gradd 5. Dw i'n ddisgybl yn ysgol gynradd Shanghai Huishi. Yn Tsieina, mae gyda ni lawer o wyliau fel Gŵyl y Gwanwyn, Gŵyl Ganol yr Hydref ayb...ond fy hoff wyl i ydy'r Diwrnod Cenedlaethol sy'n cael ei gynnal ar y cyntaf o Hydref, sef penblwydd sefydlu Gweriniaeth Pobl Tsieina. Bob tro daw gŵyl y Diwrnod Cenedlaethol rwy'n teithio i wahanol ran o Tsieina gyda fy rhieni i weld golygfeydd ac arferion ardaloedd gwahanol. Eleni roedd Tsiena'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ac fe aeth fy nheulu i Beijing – prifddinas Tsieina – i ddathlu. Yn Beijing roedd y Faner Goch gyda'r Pum Seren yn chwifio ymhobman. Mae pob teulu'n hongian y faner goch ar eu drws, a hefyd mae llawer o bobl yn y strydoedd yn cario baneri coch bach. Roedd pawb yn teimlo'n gyffrous iawn wrth ddathlu'r Diwrnod Cenedlaethol.

Fe ymwelodd fy nheulu â Sgwâr Tian'anmen, Y Ddinas Waharddedig a Theml y Nefoedd. Roedd pob man wedi ei addurno'n arbennig ar gyfer Y Diwrnod Cenedlaethol. Ar y Diwrnod Cenedlaethol, yn y bore, fe wnes i a fy nheulu sefyll yn y stryd i wyllo'r orymdaith fawr ar ein ffonau symudol tra roedden ni'n aros i wyllo gorymdaith y llu awyr. Pan ddechreuodd gorymdaith y llu awyr roedd llawer o awyrennau gyda mwg lliwgar yn hedfan uwch ein pennau ac roedd pawb yn y stryd wedi cyffroi ac yn bloeddio'n hapus. Yn y nos, mae sioe fawr o dân gwyllt yn Sgwâr Tian'anmen. Mwynheuodd fy nheulu'r sioe yn fawr iawn ac fe wnaethon ni gymryd llawer o fideos i'w cadw i gofio am y diwrnod.

Roedd y Diwrnod Cenedlaethol a dreuliais i yn Beijing yn fythgofiadwy!
Ac yn barod, alla i ddim aros tan Ddiwrnod Cenedlaethol 2020!

Ji Siwei





Annwyl ffrindiau ym Mhrydain. Sut ydych chi?

Muzi li ydw i. Dw i'n saith oed ac yn ddisgybl cynradd yn ysgol Jinyu sydd yn Ardal Newydd Liangjiang, Chongqing, Tsieina. Fe hoffwn i rannu fy hoff wyl gyda chi – Gŵyl Ganol yr Hydref.

Dyddiad Gŵyl Ganol yr Hydref yn ôl y calendr lloerol yw Awst 15. Ar y noson yma, mae ein teulu ni'n mwynhau dod at ein gilydd a threulio amser yn gwneud y pethau yma: Bydda i a fy rhieni'n paratoi cacennau lleud o wahanol flasau, fel melynwy, past ffa, past lotws, hufen iâ ayb. Fe fydda i'n gwneud paned o de osmanthws i fy mam. Dw i hefyd yn hoffi gwisgo fy 'ngwisg Châng'é', eistedd ar y balconi a mwynhau bwyta'r cacennau lleud blasus gyda fy rhieni a fy mam-gu a fy nhad-cu. Yn ystod yr amser yma fe fyddwn ni'n gwerthfawrogi'r lleud lawn, sydd fel plât mawr gwyn yn hongian yn yr awyr, mor ddisglair â Drych Yaotai. Fe fydd fy mam yn adrodd chwedl 'Châng'é yn Hedfan i'r Lleud'. Hefyd, fe fydd hi'n adrodd hen, hen gerddi am y lleud wrtha i.

Gadewch i ni ddarllen ychydig gyda'n gilydd: “明月几时有，把酒问青天” (Lleud ddisglair, pryd wnei di ymddangos? Dyna rwy'n holi awyr dywyll y nos wrth godi fy ngwîn). “海上升明月、天涯共此时” (Mae'r lleud ddisglair yn codi uwch y môr ac mae pawb yn gallu ei rannu, ym mhob rhan o'r byd). On'd ydy hynny'n fendigedig?

Dywedodd Confucius, “Mae'n bleser mawr pan ddaw ffrindiau o rywle sy'n bell i ffwrdd i ymweld â ni”. Dw i'n gobeithio y gallwch chi ddod i Tsieina i dreulio'r Wyl Ganol yr Hydref nesaf gyda ni.

Dymuniadau gorau i chi!

Gobeithio y bydd eich holl freuddwydion yn cael eu hateb, ac y bydd eich bywyd yn fwy melys na chacen leud!

Muzi Li o Tsieina



Annwyl Ffrindiau:

Fy enw Tsieinëeg i ydy Li Guoli. Fy enw Saesneg i ydy Donny Jay, ac rydw i'n 10 mlwydd oed. Rydw i'n ddisgybl yn nosbarth tri, gradd pedwar, yn Ysgol JinYu yn ChongQing LiangJiang a dw i'n caru darllen.

Fy hoff ŵyl yw “Nos Galan”, sef diwrnod olaf y flwyddyn. Ar y diwrnod yma, bydda i'n gwisgo ffedog fawr a thwtio'r tŷ gyda fy rhieni. Bydda i'n gwneud fy ngorau i helpu fy rhieni. Bydda i'n eu helpu nhw i lynnu cwpledi a nod “Fu” (â'i ben i waered) ar ddrws ein tŷ. Hefyd, bydd fflŵr dros fy nwylo pan fydda i'n dysgu sut i wneud twmplenni gyda fy mam-gu. Mae hynny'n ddoniol iawn!

Ar y noson yma, dw i'n mwynhau bwyta cinio gyda fy nheulu. Dyma fy hoff ran o'r ŵyl achos dw i'n cael llawer o 'arian lwcus' yn anrheg gan bobl sy'n henach na fi - “ya sui qian” ydy enw'r arian lwcus yma. Yna rydyn ni i gyd yn aros i'r Flwyddyn Newydd gyrraedd gyda'n gilydd. Bob tro, yn y foment yna, mae teimlad o hapusrwydd yn llenwi pob cell yn fy ngorff.

Dyna yw fy Nos Galan i. Ffrindiau annwyl, sut ydych chi'n croesawu'r Flwyddyn Newydd?

Pob lwc i chi, fy ffrindiau annwyl!
Donny Jay



Annwyl ffrind,
Helo! Fy enw i ydy Amber Zhou. Rydw i'n byw yn Beijing, prifddinas Tsieina. Rydw i'n mynd i Ysgol Elfennol Prifysgol Peking. Rydw i eisiau cyflwyno gŵyl Tsieineaidd i chi. Enw'r ŵyl yw Gŵyl Duanwu. Enw arall ar yr ŵyl ydy Gŵyl Cwch y Ddraig. Mae'n digwydd ar y pumed o Fawrth yn ôl y Calendr Lloerol.

Mae llawer o ffyrdd o ddathlu Gŵyl Duanwu. Er enghraifft, mae fy nheulu i'n bwyta saig o'r enw zongzi (twmplen reis) – reis wedi'i stemio a'i lapio mewn deilen. Fel arfer mae fy mam-gu yn paratoi llawer ohonyn nhw a'u lapio nhw mewn dail gwyrdd lotws neu gorsen. Mae hi'n eu gwasgu nhw i siâp pyramid cyn eu berwi mewn pot mawr ar gyfer y teulu cyfan. Gallwch ddewis llawer o flasau gwahanol i lenwi'r twmpleni zongzi. Rwy'n caru zongzi melys, wedi'i lenwi â phast ffa coch neu gnau. Mae fy mrawd bach, ar y llaw arall, yn hoffi Zongzi hallt, fel porc wedi'i farinadu neu lenwadau selsig. Ond zongzi past ffa ydy fy hoff un i.

Mae dathliadau Gŵyl Duanwu hefyd yn cynnwys rasys cychod y ddraig. Bob blwyddyn, ar Lyn Weiming ym Mhrifysgol Peking, mae timoedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn eu cychod draig. Eleni fe wnes i a fy ffrind gymryd rhan yng nghystadleuaeth y plant. Doedd ein cwch ni ddim yn gyflym iawn, ond roedd y ras yn lot o hwyll! Mae'r chwedl am rasys cychod y ddraig yn dechrau gyda stori bardd enwog yn nhalaith Chu – un o'r Saith Talaith Ryfelgar. Enw'r bardd oedd Qu Yuan. Roedd e'n ysgrifennu cerddi arbennig yn sôn am ei wladgarwch a'i gariad tug at y wlad. Un tro, roedd wedi cael alltudio gan frenin Chu. Roedd Qu Yuan mor siomedig roedd yn well ganddo foddi ei hun na gweld ei wlad yn cael ei threchu a'i meddiannu gan dalaith Qin. Rhuthrodd pobl i'r afon gyda chwch i geisio achub corff Qu Yuan. Mae pobl Tsieina'n cynnal Ras Cwch y Ddraig bob blwyddyn ar ddiwrnod Gŵyl Duanwu i gofio am Qu Yuan.

Rydw i'n gobeithio y cewch chi gyfle i ddod i Tsieina i weld Ras Cwch y Ddraig ac i flasau zongzi hefyd.

Yr eiddoch yn ddi-ffuant,
Amber Zhou (周墨谿泊)
Ysgol Elfennol Prifysgol Peking



Rysait ar gyfer 粽子 Zongzi – Twmplenni reis wedi'u lapio

Fel roedd Amber yn sôn yn ei llythyr, 粽子 yw'r twmplenni reis wedi'u stemio sy'n cael eu paratoi yn ôl traddodiad ar gyfer 端午节 Gŵyl Cwch y Ddraig. Mae'r twmplenni'n cael eu lapio mewn corsennau neu ddail bambw. Gall twmpleni fod yn sawrus neu'n felys – yn dibynnu ar eu llenwad - fel porc sawrus neu bast ffa coch melys.

Dyma rysait ar gyfer twmplenni melys, sy'n fwy cyffredin yng Ngogledd Tsieina. Fel gyda'r broses o wneud twmplenni ar gyfer y Flwyddyn Newydd, mae creu 粽子 yn llawer o hwyl i'r teulu cyfan wrth baratoi ar gyfer Gŵyl Cwch y Ddraig.

Past ffa coch yw prif elfen llenwad melys traddodiadol y 粽子. Mae ar gael (wedi'i baratoi'n barod) mewn arch-farchnadoedd Asiaidd ac mewn rhai archfarchnadoedd gorllewinol. Gan y gall y past flasau ychydig yn ddi-ddim ar dafodau gorllewinol rydyn ni wedi awgrymu ychwanegu datys coch Tsieineaidd neu ddatys cyffredin. Mae dail bambw (ffres a/neu wedi'u sychu) ar gael o archfarchnadoedd Asiaidd.



Yr her fwyaf wrth baratoi 粽子 yw'r broses o lapio - ond mae'n dipyn haws nag mae'n edrych i ddechrau, yn enwedig os oes dau bâr o ddwylo wrth y gwaith. Efallai na fydd

eich twmplen neu ddwy gyntaf yn hollol berffaith, ond fe ddewch i arfer yn ddigon buan. Mae disgrifiad o'r broses lapio yn y rysait isod, ond efallai y bydd hi'n haws gwyllo fideo o'r broses. Os felly, rhwch "making zongzi videos" yn eich porwr arlein.

Cynhwysion (ar gyfer 12 twmplen)

12-24 (dibynnu ar eu maint) o ddail bambŵ
(ffres neu wedi'u sychu)

600g o reis gludiog (nid yw reis cyffredin yn addas)

6-8 llwy fwrdd o bast ffa coch

12 o ddatys Tsieineaidd neu ddatys gorllewinol

(heb gerrig)

Cortyn cegin – ar gyfer y clymu

Dull paratoi

1. Rinsiwch y reis ddwywaith neu dair dan ddŵr oer wrth iddo redeg o'r tap, yna mwydych y reis dros nos mewn powlen fawr o ddŵr oer.
2. Os ydych yn defnyddio dail bambŵ wedi'u sychu, mwydych nhw dros nos mewn dŵr oer, yna berwch nhw am 2-3 munud cyn eu defnyddio.
3. Os ydych yn defnyddio dail bambŵ ffres, does dim angen eu mwydo dros nos, ond trochwch nhw mewn dŵr twym iawn (ond nid dŵr berwedig) am funud neu ddwy cyn eu defnyddio. Gwnewch yn siwr fod oedolyn yn eich helpu gyda'r rhan yma.
4. Os nad yw eich dail bambŵ yn llydan iawn, defnyddiwch ddwy ddeilen. Rhowch nhw i orgyffwrdd (rhyw 50-60%) dros ei gilydd, yna troellwch un pen i ffurfio côn. Efallai bydd edrych ar fideo arlein yn helpu gyda'r rhan yma o'r broses.
5. Rhowch ddatysen ar waelod y côn. Yna rhowch ddigon o'r reis wedi'i fwydo ar ei ben i'w orchuddio. Gallwch gario'r reis â llwy yn syth o'r dŵr y mae'n mwydo ynddo gan fod hyn yn helpu sicrhau fod y reis wedi'i bacio'n llac. Bydd unrhyw ddŵr dros ben yn draenio allan rhwng y dail. Gwasgwch y reis i lawr yn ofalus cyn ychwanegu hanner llwy fwrdd o bast ffa coch. Yna, ychwanegwch haen arall o reis ar ben y past.

6. Plygwch ymyl hir y ddeilen/y dail dros dop y côn, yna daliwch i lapio rownd nes bod siâp pyramid gyda chi - wedi'i lapio'n eithaf tynn (ond ddim yn rhy dynn gan y bydd y reis yn ehangu wrth goginio). Clymwch y pecyn gyda chortyn, gydag ychydig mwy o droelliadau na sydd eu hangen (eto, cymrwch gip ar fideo arlein i weld hyn yn glir).
7. Rhowch y twmplenni i gyd mewn pot mawr. Ychwanegwch ddŵr oer nes bod y twmplenni bron wedi eu gorchuddio ac yna rhowch blât trwm ar eu pen. Rhowch gaead ar y pot, berwch y dŵr ac yna trowch y gwres i lawr a gadewch i'r cyfan fudferwi'n dawel am 3 awr.
8. Ar ôl i'r twmplenni goginio, tynnwch nhw o'r dŵr a rhowch nhw ar blât. Gadewch i'r twmplenni oeri. Yna, datodwch y dail..ac maen nhw'n barod i'w bwyta. Mae'r twmplenni'n cadw am rai diwrnodau mewn oergell. Gallwch eu cadw am hyd at 2 fis mewn rhewgell.
9. Os oes dant melys gennych, gallwch ddpio'r twmplenni mewn siwgr, syrpp neu fêl.

**Beth am gynnal digwyddiad i
ddathlu Blwyddyn y Llygoden Fawr?**

Beth am wahodd ffrindiau a theulu i'r ysgol i ddathlu Gŵyl Tsieineaidd y Gwanwyn a dechrau Blwyddyn y Llygoden Fawr? Gallant wyllo'r disgyblion yn adrodd ac ail-greu stori Priodas y Llygoden Fawr, darllen llythyron gan ddisgyblion o Tsieina a phrofi twmplenni reis blasus. Hefyd, gallai'r disgyblion eu herio i greu lluniau tangram a'u helpu i greu eu cardiau gŵyl arbennig eu hunain.



Rhagor o Wybodaeth

Rydyn ni'n gobeithio fod eich disgyblion wedi mwynhau gweithgareddau'r pecyn yma. Mae llawer o ffyrdd eraill ar gael os ydych chi eisiau gweithio'n rhyngwladol gyda Tsieina a/neu wledydd eraill:

Ffeindio ysgol bartner

Gall partneriaethau rhyngwladol rhwng ysgolion ysbrydoli disgyblion drwy ddod â'r byd i'r ystafell ddosbarth a sbarduno gweithgareddau dysgu ar y cyd sy'n dod â dysgu ieithoedd yn fyw. Maent hefyd yn gyfle i athrawon rannu profiadau a dysgu am ymarfer newydd gan gydweithwyr mewn gwledydd eraill. Mae popeth sydd ei angen arnoch i ffeindio a gweithio gydag ysgolion o'r un anian â chi ym mhob rhan o'r byd ar gael o'n gwefan, 'Ffeindio Ysgol Bartner'.
<https://school-partner-finder.britishcouncil.org/>



Cael gafael ar adnoddau

Cymrwch gip ar ein hadnoddau dysgu bydeang sy'n cynnwys gweithgareddau dosbarth a chynlluniau gwaith:
<https://www.britishcouncil.org/school-resources/find/classroom>

Dysgu Tsieinëeg

Beth am wahodd Cynorthwydd Dosbarth Tsieineaidd i'ch dosbarth? Mae trefnu hyn yn hawdd a gallwch rannu'r cynorthwydd gydag ysgolion lleol eraill. Mae gwybodaeth am Raglen Astudio Cynradd Sefydliad Confucius ar gael o:
<http://bit.ly/2cVRnkl>

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am ffyrdd o gyflwyno Tsieinëeg yn eich ysgol, cysylltwch â Sefydliad Confucius i Ysgolion yn Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain (UCL IOE): chinesenetworks@ucl.ac.uk

Ennill cydnabyddiaeth

Ymunwch â chynllun clodfawr Gwobr Ysgolion Rhyngwladol y British Council i ennill achrediad am eich gwaith rhyngwladol: <https://bit.ly/383onFp>

Gwybodaeth am Tsieina

Hanes Tsieina

- <https://www.britishmuseum.org/collection/galleries/china-and-south-asia>

Diwylliant Tsieina

- <http://bit.ly/1f1pj0A>

Cyflwyniad i'r iaith Tsieinëeg a chefnogaeth ar gyfer addysgu a dysgu Tsieinëeg

- <https://www.britishcouncil.org/school-resources/find/classroom/year-pig-education-pack>
- <https://ci.ioe.ac.uk/teaching-materials/primary-materials-2/>

Mae fersiwn wedi'i animeiddio o stori Priodas y Llygoden Fawr ar gael yma: <https://www.youtube.com/watch?v=3sld06lVwZc>



A pheidiwch anghofio, blwyddyn nesaf yw Blwyddyn y...

British Council
10 Spring Gardens
London SW1A 2BN

schools@britishcouncil.org
www.britishcouncil.org/school-resources

© **British Council 2019**

British Council yw sefydliad rhyngwladol
y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau
diwylliannol a chyfleoedd addysgol.

Gellir lawrlwytho copïau ychwanegol o'r pecyn hwn yn Saesneg a Chymraeg o:
<https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/chinese-languages-and-culture>
Os oes cwestiynau gennych neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch
â Vicky Gough yma: vicky.gough@britishcouncil.org

